



Cyfarfod

BWRDD PENSIWN

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD LLUN, 19EG EBRILL, 2021

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 9 Ebrill 2021)

BWRDD PENSIWN

AELODAETH

CYNRYCHIOLWYR CYFLOGWR

Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru)

Cyng Aled Lloyd Evans (Cyngor Gwynedd)

Sioned Parry (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy)

CYNRYCHIOLWYR AELODAU

Hywel Eifion Jones (wedi ymddeol – Cyngor Mon gynt)

Osian Richards (Cyngor Gwynedd)

Sharon Warnes (wedi ymddeol - Cyngor Gwynedd gynt)

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 22ain o Chwefror 2021 fel rhai cywir

5. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU

10 - 12

Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd 25ain Mawrth 2021

6. ADRODDIAD (DRAFFT) BLYNYDDOL BWRDD PENSIWN GWYNEDD AR GYFER 2020-21

13 - 16

I ystyried cynnwys yr adroddiad

7. GWEINYDDIAETH PENSIYNAU

17 - 21

I ystyried yr adroddiad

8. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

22 - 25

I ystyried yr adroddiad

BWRDD PENSIWN 22-02-21

Yn bresennol: Osian Richards - Cadeirydd (Cynrychiolydd Aelodau), Cyng. Aled Evans (Cynrychiolydd Cyflogwr), H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun), Sioned Parry (Cynrychiolydd Cyflogwr), Huw Trainor (Cynrychiolydd Cyflogwr) a Sharon Warnes (Cynrychiolydd Aelodau).

Swyddogion: Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Erail a wahoddwyd: Cynghorydd Peredur Jenkins – Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 23ain o Dachwedd 2020 fel rhai cywir.

5. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU

Derbyniwyd, er gwybodaeth, gofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2021

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau pellach i'w codi o'r cofnodion

6. COFRESTR RISG

Cyflwynodd y Rheolwr Buddsoddi a'r Rheolwr Pensiynau y gofrestr risg gyfredol oedd yn amlygu risgiau perthnasol i'r Gronfa Bensiwn. Amlygwyd bod y gofrestr yn ddogfen weithredol, yn cael ei hadolygu'n rheolaidd a'i diweddarau mewn ymateb i unrhyw risgiau sylweddol sydd yn debygol o ddatblygu.

Diolchwyd am y wybodaeth

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Risg: Ffactorau allanol na ellid eu Rheoli - angen adolygu / lleihau'r sgôr risg

- Risg: Pwll Buddsoddi Cymru - angen adolygu a lleihau'r sgôr risg o dan y penawdau effaith a thebygolrwydd. Y Pwll Buddsoddi bellach wedi ei sefydlu ac yn weithredol.

Awgrymiadau i fformat y gofrestr:

- Lliwio'r matrices – defnyddio RAG?
- Ychwanegu colofn i gynnwys rhifau i'r risgiau fel bod modd cyfeirio atynt yn effeithiol
- Trefnu'r risgiau fesul lefel risg - amlygu materion risg uchel ar ddechrau'r ddogfen fel bod modd rhoi blaenoriaeth iddynt - angen cytuno a'r lefel sgôr uchel - awgrym 20
- Angen adolygu'r ddogfen gan ystyried sut i amlygu risgiau sydd wedi ei goroesi neu nad ydynt bellach yn 'risgiau'. Rhaid, er hynny, sicrhau bod cofnod o'r 'risgiau' hynny

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut y defnyddir y gofrestr, nodwyd bod y ddogfen yn un byw sydd ar gael i Aelodau'r Bwrdd, Aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ac i'r Swyddogion perthnasol gofnodi a chadw golwg ar y risgiau

PENDERFYNWYD

- **Derbyn y wybodaeth**
- **Aelodau i adolygu'r ddogfen gan gyflwyno cynigion ar addasiadau pellach i'r gofrestr i'r Rheolwr Pensiynau**

7. RHAGLEN WAITH DIWYGIEDIG

Cyflwynwyd rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2021/2022 yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd mewn cyfarfodydd blaenorol o'r Bwrdd ynghyd a materion sydd yn codi yn y maes. Atgoffwyd yr Aelodau bod y ddogfen yn ddogfen weithredol ac i'w haddasu yn unol â'r gofyn.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, awgrymwyd y sylw canlynol

- Awgrym bod un mater gweinyddol ac un mater buddsoddi yn ymddanogs bob yn ail gyfarfod gyda mater trefn lywodraethol i'w gyflwyno i bob cyfarfod

Mewn ymateb i'r sylw nodwyd y byddai materion buddsoddi yn debygol o gael eu trafod tu allan i'r cyfarfodydd Bwrdd gyda'r Aelodau yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd chwarterol y Paneli Buddsoddi ar y cyd gydag Aelodau'r Pwyllgor Pensiynau . Gall unrhyw fater buddsoddi arall ei gyflwyno fel y mae'n ymddangos - anodd fyddai rhaglennu hyn ymlaen llaw.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag amseriad cyhoeddi deddfwriaethau, canllawiau a safonau newydd, nododd y Rheolwr Pensiynau nad oedd unrhyw batrwm i gyhoeddiadau, ond byddai modd eu cyflwyno i'r Bwrdd pan yn briodol.

Ategwyd y byddai cynigion ar gyfer marchnadoedd datblygol yn cael eu cyflwyno Medi 2021 ac egwyddorion actiwari ar gyfer y prisiad i'w gyflwyno i'r Bwrdd yn ystod Gwanwyn 2022.

PENDERFYNWYD derbyn y rhaglen waith

8. GOFYNION HYFFORDDIANT Y BWRDD PENSIWN

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn cynnwys canlyniadau Aseiad Gwybodaeth Cenedlaethol Hymans Robertson o wybodaeth a dealltwriaeth Aelodau'r Bwrdd i weinyddu'r Cynllun Pensiwn yn llwyddiannus. Y prif nod oedd ceisio mynediad at wybodaeth Aelodau yn y meysydd sydd wedi eu hadnabod gan Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau CIPFA a Chod Ymarfer 14 y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR).

Amlygydd mai sgor cyfartalog y Bwrdd ar gyfer yr aseiad oedd 66.67%. Derbyniwyd dadansoddiad manwl o'r canlyniadau oedd hefyd yn mesur sgor y Bwrdd yn erbyn cyfataledd cenedlaethol. Adrannau ar farchnadoedd ariannol, rôl y Pwyllgor a deddfwriaeth oedd y meysydd a sgoriodd uchaf i'r Bwrdd gyda pherfformiad cryf ym maes llywodraethu sy'n galonogol o ystyried cyfrifoldeb y Bwrdd.

Ymddengys bod gwybodaeth y Bwrdd yn y meysydd eraill yn dda ar y cyfan, er mai dulliau actiwaraid a gweinyddu pensiwn fyddai'r meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt i'r dyfodol. Adroddwyd bod gyda Hymans Robertson eisoes wedi awgrymu cynllun hyfforddi i fynd i'r afael a'r meysydd hyn. Ategydd bod holl aelodau'r Bwrdd wedi cymryd rhan yn yr aseiad a Chronfa Gwynedd gyda'r ymgysylltiad uchaf mewn perthynas â chwblhau'r aseiad

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, awgrymwyd y sylwadau canlynol

- Bod yn anodd cymharu canlyniadau oherwydd diffyg pob Cronfa i gymryd rhan yn llawn – ffigyrau Gwynedd yn galonogol ac yn gosod fframwaith ar gyfer meysydd hyfforddiant i'r dyfodol.
- Awgrym i gynnwys adborth / diweddariad o sesiynau hyfforddi a fynychwyd fel eitem ar raglen y Bwrdd pan fydd yr angen yn codi

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rhaglenni hyfforddi, amlygwyd bod Pwl Pensiwn Cymru yn cynnig rhaglen hyfforddiant ynghyd a webinarau gan gwmnïau perthnasol. Ategydd bod y Rheoleiddiwr Pensiwn hefyd yn cynnig cyrsiau ar lein ac y byddai modd cyfeirio'r wybodaeth yma i'r Aelodau yn fisol

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth

9. CYFLWYNO CYLLIDEB UNED GWEINYDDU PENSIYNAU AC UNED BUDDSODDI 2021 /22

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn amlinellu cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021–2022, ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.

Amlygwyd mai 2019/2020 oedd y tro cyntaf i'r gyllideb ar gyfer yr Unedau gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau am gymeradwyaeth a bod bwriad erbyn hyn i gyflwyno'r wybodaeth yn flynyddol. Addaswyd cyllideb 2019 /20 yn unol ag addasiadau i strwythur staff yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi - man addasiadau yn unig oedd i gyllideb 2021/22 gyda chyllidebau sylfaenol yn parhau'r un fath.

Nodwyd bod y Pwyllgor Pensiynau wedi cymeradwyo'r gyllideb 21/01/2021

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth

10. AMCANION YMGYNGHORWYR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn yr amcanion a osodwyd i'r ymgynghorwyr buddsoddi ynghyd a manylion amcanion ar gyfer 2020/21. Adroddwyd, yn dilyn adolygiad o'r marchnadoedd ymgynghori buddsoddi a rheoli ymddiriedol bu i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd nodi'r angen i Ymddiriedolwyr Cronfeydd Pensiwn osod amcanion i'w ymgynghorwyr buddsoddi gan nodi yn glir yr hyn ddisgwylir ganddynt.

Cyfeiriwyd at yr amcanion cyfredol ynghyd a'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion hynny yn ystod 2020. Amlygwyd bod yr amcanion wedi bod yn weithredol ers Rhagfyr 2019, a bod datganiad cydymffurfio ar gyfer 2020 wedi ei arwyddo gan Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau erbyn y dyddiad cau gofynnol (7fed o Ionawr 2021).

Adroddwyd bod Hymans yn cyflawni gwaith da, yn darparu adroddiadau cynhwysfawr ar gyfer y paneli buddsoddi, yn cynnig cyngor ymarferol, ymatebion a gohebiaeth amserol ac yn perfformio yn unol â'r amcanion.

Mewn ymateb i gais am eglurhad dros y gwahaniaeth rhwng amcan 5 ac amcan 6, amlygwyd bod amcan 5 yn cyfeirio at yr amser mae'n cymryd i ddatblygu polisiau addas gyda Hymans yn chwarae rôl ddefnyddiol iawn o lunio a datblygu polisiau yn unol â chyfarwyddyd y Cyngor. Ategwyd mai bwriad amcan 6 yw sicrhau bod y gwaith yn adlewyrchu gofynion y polisi

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth

11. BUDDSODDI CYFRIFOL A BUDDSODDIADAU CARBON ISEL

Cyflwynwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau yn diweddarar'r Bwrdd ar weithgareddau'r Gronfa yn y meysydd buddsoddi cyfrifol a buddsoddiadau carbon isel ynghyd a chyflwyno datganiad drafft sydd yn darparu safbwynt y Gronfa o ddad-fuddsoddiadau o danwydd ffosil.

Adroddwyd bod buddsoddiadau carbon isel wedi ei amlygu fel maes blaenoriaeth gan y Gronfa gyda nifer o ddatblygiadau wedi eu gweithredu o ganlyniad i gydweithio da rhwng y Pwyllgor, Y Bwrdd, Rheolwyr ac Ymgynghorwyr. Ategwyd bod y rheolwyr asedau wedi ymgysylltu gyda chwmnïau o ran eu cynlluniau ar gyfer dyfodol carbon isel gyda'r Gronfa Bensiwn wedi dwyn pwysau ar gwmnïau i gynyddu ymdrechion yn y maes pwysig hwn.

Y bwriad yw cyhoeddi'r datganiad gan dynnu sylw cyhoeddus at yr holl weithredoedd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod y datblygiadau yn gadarnhaol a chalonogol
- Bod y ddogfen yn un ddefnyddiol - braf gweld y wybodaeth ar ddu a gwyn

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ynghyd a chynnwys y datganiad drafft. Llofnododd y Cadeirydd y datganiad.

12. RHEOLIADAU TALIADAU YMADAEL Y SECTOR CYHOEDDUS 2020

Ers cyhoeddi'r rhaglen, cafwyd datganiad gan y Llywodraeth (12/02/21) yn diddymu'r rheoliadau cap talu ymadael o £95k, ac felly ni chafwyd trafodaeth ar y mater.

Awgrymwyd y byddai'n debygol y bydd addasiadau neu gynigion i'r rheoliadau yn cael eu cyflwyno i'r dyfodol ac y byddai'r argymhellion hynny yn cael eu rhannu a'u trafod gyda'r Bwrdd.

13. Y RHEOLYDD PENSIYNAU: AROLWG TREFN LYWODRAETHOL GWASANAETH CYHOEDDUS 2020

Cyflwynwyd arolwg gan y Rheolydd Pensiynau i dderbyn adborth y Bwrdd am drefniadau llywodraethu Cronfa Bensiwn Gwynedd. Eglurwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 12 Chwefror 2021, ond ymestynnwyd y terfyn amser gan y Rheolydd er mwyn derbyn mewnbwn y Bwrdd yn y cyfarfod hwn.

Cwblhawyd yr arolwg yn ystod y cyfarfod.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y materion canlynol fel rhai oedd angen sylw:

- A10 - cynllun olyniaeth Aelodaeth y Bwrdd - nodwyd nad oedd 'cyfnod' penodol wedi ei osod ond bod bwriad adolygu'r Aelodaeth yn Mai 2022. Amlygwyd y bydd proses penodi ffurfiol yn cael ei dilyn gyda hysbyseb yn cael ei rhyddhau am enwebiadau newydd ynghyd a chyfle i'r aelodau cyfredol ail gynnig am aelodaeth.
- Bod Ateb A3 a B5.7 yn gwrth-ddweud ei gilydd - angen adolygu'r ateb o dan B5.16 'arall'
- Bod angen diweddariad ar ddiogelwch cyber (rhan D) – cadarnhawyd bod 'risg cyber' wedi ei gynnwys ar y rhaglen waith ddiwygiedig (Haf 2021)
- Bod rhan I, J a K yn ychwanegiadau newydd ac yn fodd o osod ffocws ar gyfer yr hyn sydd angen ei weithredu

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:20pm

PWYLLGOR PENSIYNAU 25-3-21

Presenoldeb: Cyngorydd Stephen Churchman - Is Gadeirydd

Cynghorwyr:, John Brynmor Hughes, Aled Wyn Jones, John Pughe Roberts (eitem 6 ymlaen), Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

Swyddogion:

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd:

Cyngorydd Edgar Owen (Cadeirydd y Cyngor)
Sioned Parry (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd Peredur Jenkins a'r Cyngorydd Simon Glyn

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYN

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2021 fel rhai cywir.

5. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS AR GYFER 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi gan nodi yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyriwyd y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) Cyngor Gwynedd am 2021/22, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cafodd DSRhT Cyngor Gwynedd am 2021/22 ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 4 Mawrth 2021.

Dymuniad y Pwyllgor Pensiynau oedd caniatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda balansau ariannol y Cyngor. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bydd Cyngor Gwynedd yn talu llog priodol i'r Gronfa Bensiwn ar sail balansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Amlygwyd bod yr ymarfer yn un sydd yn cael ei benderfynu yn flynyddol gan fod y dychweliadau a dderbynnir yn well gyda'r risgiau wedi ei lleihau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor.

Mae'r swm sydd ar gael i gronni yn amrywio ac wedi tyfu yn ddiweddar i oddeutu £20m-£25m. Mewn trafodaethau diweddar yn y Panel Buddsoddi, argymhellwyd i fuddsoddi hyd at £20m i gronfa ARB PPC- cadarnhaodd y Rheolwr Buddsoddi bod £10m wedi ei fuddsoddi erbyn hyn. Y math o fuddsoddiadau sydd ar gael ar y cyd gyda'r Cyngor a welir yn yr adroddiad ydi Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, Awdurdodau eraill, Cronfeydd Marchnad Arian a chronfeydd wedi'i pwlio

Prif fanteision yr ymarfer yw denu llog uwch, isafu costau banc ac osgoi dyblygu gwaith o fewn y Cyngor. Cadarnhawyd mai cadw'r Gronfa yn ddiogel a gwarchod yr arian yw'r flaenoriaeth ac nid cymryd risg.

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhellion.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Nad oedd pwrpas cael strategaeth wahanol
- Y trefniant yn gweithio yn dda

PENDERFYNWYD:

- **Mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys am 2021/22 fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn**
- **Gwneud cais i'r Cyngor (er nad yw yn gorff ar wahân), i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1af o Ebrill 2021 ymlaen.**

6. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN Cymru 2021-24

Cyflwynwyd, er gwybodaeth adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn nodi dymuniad Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) i bob pwyllgor unigol o fewn y bartneriaeth gymeradwyo eu Cynllun Busnes. Eglurwyd bod y Cynllun Busnes wedi ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu am gymeradwyaeth ar y 24ain o Fawrth 2021 lle argymhellwyd dau addasiad - 2 elfen yn ymwneud a hyfforddiant blynyddol a pholisi datgelu / 'Canu'r Gloch'.

Amlygwyd bod y Cynllun Busnes yn rhoi trosolwg manwl ar yr hyn y mae'r PPC yn ei wneud ynghyd a sut y maent yn cyflawni eu nodau. Ategwyd y byddai'r Cynllun yn cael ei fonitro yn rheolaidd ac yn cael ei adolygu a'i gytuno yn flynyddol.

Cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r Cynllun Busnes ynghyd a'r ychwanegiadau a argymhellwyd gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu

PENDERFYNWYD cymeradwyo Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru

7. COFRESTR RISG

Cyflwynodd y Rheolwr Buddsoddi a'r Rheolwr Pensiynau y gofrestr risg gyfredol oedd yn amlygu risgiau perthnasol i'r Gronfa Bensiwn. Amlygwyd bod y gofrestr yn ddogfen weithredol, yn cael ei hadolygu'n rheolaidd a'i diweddarau mewn ymateb i unrhyw risgiau sylweddol sydd yn debygol o ddatblygu.

Amlygwyd bod y gofrestr, ers ei ffurfio, wedi ei chyflwyno i'r Bwrdd Pensiwn yn rheolaidd gyda'r Bwrdd yn adolygu'r cynnwys ac yn cynnig sylwadau ar sgôr y risgiau a fformat y gofrestr. Ers ei chyflwyno i'r Bwrdd ym mis Chwefror 2021, amlygwyd bod y risgiau oedd

wedi dyddio wedi eu hadolygu, yr asesiadau wedi eu haddasu a bod y gofrestr yn gyfredol â'r sefyllfa bresennol.

Diolchwyd am y wybodaeth

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Croesawu lliwiau i amlygu risg, er ystyriwyd nad oedd piws yn adlewyrchu 'trychinebus'
- Risg rhif 1.2 – gwrthdaro buddiannau... – angen amlygu'r buddiannau yn glir
- Risg rhif 2.1 – gwneud penderfyniadau amhriodol o ganlyniad i wybodaeth annigonol... – angen cynnwys y Bwrdd Pensiwn fel Rheolaeth Lliniaru i atgyfnerthu'r datganiad – y Bwrdd yn chwarae rôl bwysig drwy herio a chraffu gweinyddiaeth a rheolaeth y Gronfa Bensiwn

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â risg rhif 7.5 - buddion pensiwn yn parhau i gael ei dalu i bensiynwyr sydd wedi marw...' cadarnhawyd bod cais yn cael ei wneud am gopi o'r dystysgrif marwolaeth

PENDERFYNWYD, derbyn, er gwybodaeth, gynnwys y Gofrestr Risg

Dechreuodd y cyfarfod am 11:00am a daeth i ben 11:30am

Eitem 6



Cyfarfod:	Bwrdd Pensiwn
Dyddiad:	19/04/2021
Teitl:	Adroddiad drafft Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn ar gyfer adroddiad blynyddol y Gronfa
Pwrpas:	Cynorthwyo'r Cadeirydd i ysgrifennu'r adroddiad blynyddol

Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i Gadeirydd y Bwrdd Pensiwn gyflwyno adroddiad blynyddol fel rhan o adroddiad blynyddol y Gronfa Bensiwn ac fel rhan o gyfarfod blynyddol y Gronfa.

Mae'r adroddiad drafft hwn (Gweler Atodiad A) wedi ei baratoi.

Amserlen

Mae'n ofynnol bod yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno erbyn: 31/07/2021.

Bydd cyfarfod blynyddol y gronfa yn cymryd yn ystod tymor yr Hydref ac mae croeso i holl aelodau'r Bwrdd fynychu.

Cynnwys yr adroddiad drafft

Mae'r adroddiad drafft wedi ei ysgrifennu yn unol â gosodiad adroddiad 2020. Mae nifer o ddatganiadau ffeithiol wedi cael eu gadael heb newid ar gyfer adroddiad 2020 ond mae wedi cael ei ddiweddarau i gymryd ystyriaeth y pynciau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn.

Casgliad

Gofynnir i aelodau'r Bwrdd i ystyried cynnwys yr adroddiad drafft er mwyn trafod ei gynnwys a chynnig gwelliannau yn y cyfarfod.

Fel nodwyd uchod, mae'n ofynnol i'r Cadeirydd gyflwyno'r adroddiad terfynol i Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi erbyn 31/07/2021.

Atodiad A

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Gwynedd ar gyfer 2020/21 (y flwyddyn at 31 Mawrth 2021)

Cefndir / Cyfansoddiad

Cyfansoddwyd y Bwrdd o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 13 Gorffennaf 2015. Mae'r aelodaeth yn cynnwys tri aelod sydd yn cynrychioli cyflogwyr y cynllun a thri aelod sydd yn cynrychioli aelodau'r cynllun (sef staff sy'n cyfrannu tuag at pensiwn a rhai sydd wedi ymdeol ac yn derbyn pensiwn).

Dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, mae'r Bwrdd wedi cwrdd yn rhithiol tair gwaith. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael gwahoddiad fel arsylwyr i gyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau, ac wedi cytuno cymryd y rôl hon yn eu tro er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth yn ogystal â chyfathrebu. Mae'r trefniant hon yn gytbwys gyda Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau rŵan yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, lle bu'n atebol, gyda swyddogion am lywodraethu a gweinyddu'r Gronfa. Ar adegau, mae'r Bwrdd wedi gofyn i'w farn ac argymhellion gael eu cyflwyno'n swyddogol am ystyriaeth gan y Pwyllgor.

Swyddogaeth y Bwrdd

Yn unol â'r ddeddfwriaeth, dau brif swyddogaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo'r awdurdod gweinyddol (Cyngor Gwynedd) i:

- i. sicrhau llywodraethu a gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon o'r C.P.L.L., a
- ii. sicrhau cydymffurfiaid gyda'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol.

Felly, corff monitro, adolygu a chynorthwyo yw'r Bwrdd, nid corff sydd yn rheoli a gwneud penderfyniadau.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu o dan Gylch Gorchwyl a gytunwyd gan Cyngor Gwynedd (mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 5^{ed} o Fawrth 2015).

Mae'n derbyn cefnogaeth gan Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu'r Cyngor ac mae adroddiadau yn cael eu paratoi a'u cyflwyno gan swyddogion yn cynnwys y Pennaeth Cyllid, Rheolwr Buddsoddi a Rheolwr Pensiynau y Gronfa.

Gwaith y Bwrdd

Unwaith eto mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn brysur i staff uwch yr Awdurdod Gweinyddol gyda'r argyfwng Covid-19 yn golygu bod staff y Gronfa yn gorfod gweithio o adref, ac addasu i ffordd newydd o weithio. Felly, roedd aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen i flaenoriaethu ceisiadau i swyddogion baratoi adroddiadau ar gyfer y Bwrdd.

Presenoldeb

	20/07/2020	23/11/2020	22/02/2021
Cynghorydd Aled Evans	✓		✓
H. Eifion Jones	✓	✓	✓
Osian Richards	✓	✓	✓
Huw Trainor	✓	✓	✓
Sharon Warnes	✓	✓	✓
Sioned Evans Parry	✓	✓	✓

Cynllun Gwaith

Yn unol â'r cynllun gwaith a gytunwyd yn y flwyddyn flaenorol, rhoddwyd sylw i adroddiadau ar y materion canlynol:

- Datganiad Strategaeth Buddsoddi
- Diweddariad i'r Gofrestr Risg
- Gofynion Hyfforddiant y Bwrdd
- Cyllideb y Gronfa
- Amcanion Ymgynghorwyr Buddsoddi
- Buddsoddi Cyfrifol a Charbon Isel
- Perfformiad buddsoddi'r Gronfa Bensiwn
- Gweinyddiaeth Pensiwn
- Gweithio o adref o sgil Covid-19
- Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Polisi Cyfathrebu'r Gronfa
- Cyfrifon y Gronfa

Yn ystod trafodaethau, rhoddwyd mewnbwn a chyflwynwyd nifer o sylwadau gan aelodau'r Bwrdd sydd wedi cynorthwyo swyddogion yr awdurdod gweinyddol i gwblhau eu gwaith.

Hefyd, mynychodd aelodau'r Bwrdd gyfarfod blynyddol rhithiol y Gronfa ym mis Tachwedd 2020, a nodwyd y bu perfformiad hynod foddhaol, o'i gymharu â chronfeydd C.P.L.L. eraill.

Cwblhaodd y Bwrdd arolwg trefn lywodraethol gwasanaeth cyhoeddus y Rheolydd Pensiynau. Roedd yr arolwg yn gymysgedd o gwestiynau ffeithiol ac arolwg barn. Yn dilyn trafodaeth rhwng aelodau'r Bwrdd, cyflwynwyd yr arolwg i'r Rheolydd o fewn y terfyn amser penodol. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y mater canlynol fel un oedd angen sylw:

- Angen diweddariad ar ddiogelwch seiber

Mae'r cynllun gwaith ar gyfer 2021/22 yn cynnwys:

- Diweddariad i'r Gofrestr Risg
- Diweddariad Cyffredinol am Weinyddiaeth Pensiynau
- Diweddariad am Bartneriaeth Pensiwn Cymru
- Diweddariad am berfformiad buddsoddi Cronfa Bensiwn Gwynedd

- Diweddariad ar y prosiect McCloud
- Risg Seiber
- Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn

Hyfforddiant

Yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd cafodd pob aelod o'r Bwrdd fanylion am y C.P.L.L.L. a'i weinyddiaeth yng Ngwynedd mewn cyflwyniadau amrywiol gan y Pennaeth Cyllid, Rheolwr Buddsoddi, Rheolwr Pensiynau.

Yn ystod 2020/21 mae aelodau'r Bwrdd wedi cymryd rhan yn Asesiad Gwybodaeth Genedlaethol Hymans Robertson. Prif nod yr asesiad oedd ceisio mynediad at wybodaeth Aelodau yn y meysydd sydd wedi eu hadnabod gan Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau CIPFA a Chod Ymarfer 14 y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR).

Mae aelodau'r Bwrdd hefyd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd a chyflwyniadau rhithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Angen gwybod gan aelodau'r bwrdd pa sesiynau maent wedi mynychu ar gyfer y rhan yma

Diolch

Mae'r Cadeirydd yn dymuno diolch i'w gyd-aelodau ar y Bwrdd, sydd wedi gwirfoddoli eu hamser i'r swyddogaethau, ac i'r swyddogion perthnasol am eu cefnogaeth.

Osian Richards
Cadeirydd

Eitem 7



Cyfarfod:	Bwrdd Pensiwn
Dyddiad:	19/04/2021
Teitl:	Gweinyddiaeth Pensiynau
Awdur:	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau
Pwrpas:	Er gwybodaeth

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg cyffredinol o weinyddu pensiwn dros y 6 mis diwethaf. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y gwaith a gyflawnwyd dros y cyfnod, diweddariad ar wahanol brosiectau a grybwyllwyd yn flaenorol, newidiadau yn y rheoliadau a hefyd yn rhestru'r heriau y mae'r adran yn eu hwynebu o ddydd i ddydd.

2. Staffio

Ers y diweddariad gweinyddiaeth ddiwethaf mae 2 aelod o staff wedi mynd ar gyfnod o famolaeth ac un wedi symud adran o fwn y Cyngor. Oherwydd y newid hwn mae cyfweiliadau wedi bod yn cael eu cynnal dros yr ychydig fisoedd diwethaf i staffio'r adran yn llawn. O sgil y cyfweiliadau mae 3 Cymhorthydd Pensiynau wedi ymuno a'r tîm yn y misoedd diwethaf.

Mae'r 3 wedi setlo'n dda hyd yn hyn, ond mae hyfforddi o bell yn gallu bod yn sialens i gymharu â hyfforddiant wyneb yn wyneb.

3. i-Connect

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae i-Connect yn diweddarau data aelodau yn ein system gweinyddu pensiynau yn fisol, gan osgoi'r angen i gyflogwyr anfon gwybodaeth ar ddiwedd y flwyddyn.

Cymerir data yn uniongyrchol o system gyflogres gan i-Connect sydd wedyn yn nodi ac yn cyflwyno manylion am aelodau newydd, y rhai sydd optio allan a ymadawyr i ni yn awtomatig.

Ers y diweddariad gweinyddiaeth ddiwethaf, gwnaed cynnydd mawr eto gyda'r prosiect i-Connect.

Mae'r cyflogwyr mawr i gyd yn defnyddio i-Connect erbyn hyn, gyda'r wybodaeth yn cael ei gyflwyno yn brydlon gan y cyflogwyr i gyd ar y cyfan.

Mae hyn bellach yn gadael dim ond dau gyflogwr bach (1 aelod o staff yr un) sydd ddim yn defnyddio i-Connect i gyflwyno eu manylion. Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn y flwyddyn dreth 2021/22 i symud y cyflogwyr hyn i i-Connect.

4. Hunan Wasanaeth Aelodau

Mae'r wefan Hunan Wasanaeth yn parhau i fod yn boblogaidd iawn, gyda nifer fawr o aelodau yn ymweld â'r safle yn ddyddiol.

Mae oddeutu 16,000 wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hyd yn hyn.

5. Hyfforddiant

Yn y diweddariad diwethaf, soniwyd bod pedwar aelod o staff wedi dechrau astudio tuag at Radd Sylfaen mewn Gweinyddu a Rheoli Pensiynau. Mae'r radd sylfaen yn gymysgedd o aseiniadau ac arholiadau a bydd yn cymryd 2 flynedd i'w chwblhau. Rwy'n falch o adrodd bod y pedwar yn dod ymlaen yn dda gyda'r cwrs hwn, gyda'r holl aseiniadau ac arholiadau hyd yn hyn wedi'u cwblhau'n llwyddiannus.

Bydd 4 aelod arall o staff yn dechrau astudio cwrs Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Pensiynau yn fis Mai 2021. Cwrs 9 mis yw hwn sydd yn rhoi dealltwriaeth sylfaenol o gynlluniau pensiwn yn y DU.

Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi yn ddiweddar ar Fuddion Marwolaeth i staff perthnasol yr adran gan Karl White, Swyddog Hyfforddi'r LGA. Edrychodd y sesiwn hon ar gyfrifiadau buddion dibynnyddion a grantiau marwolaeth. Derbyniwyd adborth cadarnhaol a gobeithir y bydd y sesiwn yn ein helpu i ddeall yn well y set gymhleth hon o reoliadau.

6. Pensiynau'n Cynyddu

Y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer Medi 2020 oedd 0.5%. Dyma'r ffigwr a ddefnyddiwyd ym mis Ebrill 2021 i gynyddu taliadau pensiwn ar gyfer ein Pensiynwyr a'n buddion gohiriedig.

Anfonir llythyr ym mis Ebrill at ein holl bensiynwyr i'w hysbysu o'u swm pensiwn uwch a'u dyddiadau talu ar gyfer 2021/22.

7. Mesur Data

Yn 2015, cymerodd y Rheoleiddiwr Pensiynau (yRP) gyfrifoldeb am Gynlluniau Pensiwn y Sector Cyhoeddus. Cyn hynny, ym mis Mehefin 2010, cyhoeddodd y yRP arweiniad ar yr ymagwedd y maen nhw'n ei ystyried yn arfer da i fesur presenoldeb data aelodau.

Fe wnaethom gomisiynu ein darparwr meddalwedd, Aquila Heywood i gynhyrchu Adroddiad Ansawdd Data ar gyfer ein Cronfa ym mis Medi 2020.

Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n ddwy adran:

- **Data Cyffredin:** e.e. enw, cyfeiriad, rhif YG, rhyw, dyddiad geni, statws a dyddiad cychwyn
- **Data Penodol i'r Cynllun:** e.e. buddion yn y cynllun, manylion trosglwyddo, CGY, manylion cyflog, cyfraniadau, gwasanaeth, lwfans oes, lwfans blynyddol a IPG.

Rydym yn rhoi isod grynodedb o'r canlyniadau:


Crynodeb o'r Canlyniadau Data Cyffredin

Mae'r graff isod yn dangos perfformiad Gwynedd ar gyfer pob categori data yn erbyn meincnodau'r cynllun y cytunwyd arnynt ynghyd â chanlyniadau profion 2019. Mae'r canlyniadau a gyflwynir yma yn cael eu cynhyrchu o ddata a dynnwyd o Wasanaeth Byw Altair Gwynedd ar 29 Medi 2020 ar gyfer pob prawf. Canran gyffredinol y profion a basiwyd ar gyfer data cyffredin Gwynedd yw **99.4%** (dim newid o sgor 2019)

Cyflawnodd 7 o'r 8 categori'r meincnod uchaf o fwy na 98% gydag 3 categori heb gofnodi methiant unigol. Mae 3 categori arall wedi'u talgrynnu i 100% gyda chyfraddau pasio dros 99.95%. Yr unig

gategori na gyrhaeddodd y meincnod uchaf dan sylw oedd **cyfeiriadau aelodau** gyda sgôr o **97.5%**. Ac eithrio cyfeiriadau aelodau, mae ansawdd cyffredinol y data cyffredin yng Ngwynedd o safon uchel. Er mwyn gwella'r sgôr cyfeiriadau aelodau rydym wedi defnyddio cwmni o'r enw ATMOS yn Fawrth 2021 i wneud gwaith i olrhain cyfeiriad aelodau a gofnodwyd fel rhai sydd "wedi diflannu". Mae'r gwasanaeth yma wedi darganfod oddeutu 1,400 cyfeiriad newydd i ni. Drwy ddiweddarau'r cyfeiriadau yma rydym yn gobeithio bydd y sgôr cyfeiriadau yn dod â'r categori hwn i'r meincnod uchaf tro nesaf.


Canran y cofnodion aelodau heb fethiant data cyffredin yw **97.5%** (96.9% blwyddyn diwethaf) a dyma'r ffigwr y bydd yRP yn ei dderbyn ar ddychweliadau'r cynllun.



Crynodeb o Ganlyniadau Data Penodol y Cynllun

Mae'r graff isod yn dangos perfformiad Gwynedd ar gyfer pob categori data yn erbyn meincnodau'r cynllun y cytunwyd arnynt ynghyd â chanlyniadau profion 2019. Mae'r canlyniadau a gyflwynir yma yn cael eu cynhyrchu o ddata a dynnwyd o Wasanaeth Byw Altair Gwynedd ar 29 Medi 2020 ar gyfer pob prawf. Y ganran gyffredinol o brofion a basiwyd ar gyfer data cynllun-benodol yw **98.1%**.

Canran y cofnodion aelodau heb fethiant data unigol sy'n benodol i'r cynllun yw **92.1%** (91.7% flwyddyn diwethaf) a dyma'r ffigwr y bydd yRP yn ei dderbyn ar ddychweliadau'r cynllun.



Mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu mewn perthynas â gweithredu unrhyw lanhau data a amlygwyd fel rhan o'r ymarfer hwn a disgwylir i'r glanhau data hwn wella'r sgoriau data ar gyfer y flwyddyn nesaf.

8. Dyfarniad McCloud

Pan ddiwygiodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn 2014 a 2015 fe wnaethant gyflwyno amddiffyniadau i aelodau hŷn. Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod aelodau iau o gynlluniau Pensiwn y Barnwyr a'r Diffoddwyr Tân wedi cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd nad yw'r amddiffyniadau yn berthnasol iddynt.

Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau y bydd newidiadau i holl brif gynlluniau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys y CPLIL, i gael gwared ar y gwahaniaethu ar sail oedran. Yn aml, gelwir y dyfarniad hwn yn 'ddyfarniad McCloud' ar ôl i aelod o Gynllun Pensiwn y Barnwyr ymwneud â'r achos.

Pan newidiodd y CPLIL o gynllun cyflog terfynol i gynllun pensiwn cyfartalog gyrfu yn 2014, cafodd aelodau a oedd o fewn 10 mlynedd i'w Oedran Pensiwn Arferol (65 oed fel arfer) ar 1 Ebrill 2012 amddiffyniad o'r enw 'underpin'. Pan fydd aelod gwarchodedig yn cymryd ei bensiwn, cymharir y buddion sy'n daladwy o dan y cynlluniau cyfartaledd gyrfu a chyflog terfynol a thelir y swm uwch.

Yn dilyn y dyfarniad McCloud mae angen i'r Llywodraeth ddarparu amddiffyniad sy'n hafal i'r amddiffyniad sylfaenol a ddarperir i aelodau hŷn er mwyn dileu'r gwahaniaethu.

Er mwyn ddarparu'r warchodaeth yma bydd yn rhaid i ni ail gyfrifo buddion aelodau sydd wedi ymddeol, marw a gadael y cynllun ers Ebrill 2014, yn ogystal â diweddau cofnodion aelodau actif y gronfa gyda manylion oriau a thoriadau mewn gwasanaeth.

Mae'r prosiect yma yn un sylweddol, ac rydym yn tybio bydd angen ail edrych ar 20,000 o gofnodion.

Ar hyn o bryd rydym yn disgwyl i weld beth fydd ein system gyfrifiadurol yn gallu ei wneud mewn perthynas â'r cyfrifiadau cyn dechrau ar y gwaith o ddifri.

Yn y cyfamser rydym wedi cysylltu gyda'r holl gyflogwyr bach a canolig i ofyn iddynt gadarnhau'r manylion oriau ac ati ar gyfer y staff. Byddem yn trefnu cyfarfodydd gyda'r cyflogwyr mawr yn y misoedd nesaf i drafod ein gofynion o ran darparu data.

Rydym yn rhagweld y byddwn yn dechrau ar y gwaith o ddifri o gywiro cofnodion yn 2022 ac mae'n debyg bydd angen tîm arbennig i weithio ar y prosiect yma.

Serch yr holl waith, mae'r rhan fwyaf o aelodau'n annhebygol o weld cynnydd i'w pensiwn, a phan fydd cynnydd yn cael ei gymhwyso, mae'n debygol o fod yn fach. Y rheswm am hyn yw y bydd y mwyafrif o aelodau'n cronni pensiwn uwch yn y cynllun pensiwn cyfartaledd gyrfa nag y byddent wedi'i gael o dan y cynllun cyflog terfynol.

9. Cwynion

Yn ffodus, mae'r nifer o gwynion rydym yn ei dderbyn yn isel iawn. Dyma fanylion y cwynion rydym wedi ei dderbyn yn ystod 2020/21:

- Ymddeoliad Salwch: Aelodau yn anhapus na fu eu cais i ymddeol o dan yr opsiwn ymddeoliad salwch yn llwyddiannus. Mae'r penderfyniad yma tu allan i reolaeth y gronfa – Mae'r cwynion yma yn cael eu cyfeirio yn ôl i'r cyflogwr perthnasol.
- Taliadau Grant Marwolaeth: Mae gan y gronfa disgresiwn mewn perthynas â thalu grant marwolaeth yn dilyn marwolaeth aelod. Mewn achosion aneglur rydym yn defnyddio'r disgresiwn yma i dalu'r arian i'r ystâd ac nid yw rhai buddiolwyr yn hapus efo hyn.
- Iaith wallus mewn gohebiaeth: Rydym wedi derbyn 2 gwyn am iaith wallus mewn gohebiaeth Cymraeg rydym wedi ei anfon allan. Mae'r llythyrau mewn cwestiwn yn llythyrau sydd wedi ei hanfon allan gan aelodau unigol o staff, ac nid un o dempledi safonol yr adran. Rydym yn ceisio creu templedi ychwanegol er mwyn osgoi hyn ddigwydd eto. Rydym hefyd yn anfon bob templed i'w gael ei brawf ddarllen gan adran Gyfieithu'r Cyngor i sicrhau cywirdeb iaith.

Eitem 8

CYFARFOD:	BWRDD PENSIWN
DYDDIAD:	19 EBRILL 2021
TEITL:	DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. Cyflwyniad

Mae'r cydweithio wedi bod yn mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 2017 gyda swyddogion yn cwrdd yn aml.

Mae'r perfformiad hyd yn hyn wedi bod yn safonol iawn ac mae nifer o ddatblygiadau ar y gweill ac felly, mae'r papur yma'n diweddarau'r Bwrdd.

2. Cronfeydd Ecwiti Byd-Eang

Sefydlwyd y cronfeydd yma yn Chwefror 2019 a gellir gweld eu perfformiad hyd at 31 Rhagfyr 2020 isod.

Cronfa Twf Byd-Eang

Mae hwn yn gronfa Fyd-Eang sydd yn cynnwys tri rheolwr sylfaenol (Baillie Gifford, Veritas a Pzena) gyda Link fel y rheolwr buddsoddi.

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Perfformiad	13.30	17.41	16.86
Meincnod	8.46	12.67	14.02
Gwarged enillion	4.84	4.74	2.84

Bu i'r Gronfa berfformio'n sylweddol uwch na'r meincnod yn chwarter Rhagfyr 2020. Bu i stociau gwerth berfformio'n well na'u cyfoedion twf am y tro cyntaf ar sail chwarterol ers 2018. Bu i hyn alluogi Pzena i berfformio'n sylweddol uwch yn y chwarter. Bu i Baillie Gifford gynhyrchu enillion blynyddol sterling o bron i 33%, gan fuddsoddi mewn cwmnïau lle maent o'r farn eu bod yn cael mantais gystadleuol gynaliadwy yn eu diwydiannau ac a fydd yn tyfu enillion ynghynt na chyfartaledd y farchnad.

Cronfa Cyfleoedd Byd-Eang

Mae hwn yn gronfa Fyd-Eang a Rhanbarthol sydd yn cynnwys saith rheolwr sylfaenol (Morgan Stanley, Numeric, Sanders, Jacobs Levy, SW Mitchell, NWQ a Oaktree) gyda Russell Investments fel y rheolwr buddsoddi.

Comisiynwyd 'decarbonisation overlay' yn ddiweddar sydd yn lleihau ôl troed y gronfa yma o 25%.

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Perfformiad	9.86	13.63	14.63
Meincnod	8.46	12.67	13.34
Gwarged enillion	1.40	0.96	1.29

Bu i'r Gronfa gofnodi dychweliadau positif dros y pedwerydd chwarter a gorffen uwchben y meincnod. Gwelwyd adferiad arwyddocaol mewn gwerth yn ystod y chwarter hwn, yn fwyaf nodedig ym mis Tachwedd, a hynny ar gefn elfennau sylfaenol mwy ffafriol. Bu i hyn roi hwb i enillion Sanders a dull mwy aml-ffactor Jacobs Levy. Er ei fod yn parhau i fod yn ffactor sy'n tanberfformio ar gyfer y flwyddyn, mae'r gwerth wedi bod yn adfer ei golledion yn araf. Bu i stociau cap bychan hefyd gael chwarter cadarnhaol wrth i'r awydd am risg gynyddu ymysg buddsoddwyr wrth i frechlynnau COVID-19 gael eu rhyddhau. Fel y cyfryw, bu i strategaeth anweddolrwydd isel Numeric ei chael yn anodd dod o hyd i dyniant yn amgylchedd cyffredinol y farchnad. Ar ochr arall y sbectrwm, bu i fomentwm a dulliau twf lusgo am y tro cyntaf eleni, gan bwysu ar Morgan Stanley.

3. Cronfeydd Incwm Sefydlog

Lansiodd y bartneriaeth pump is- gronfa incwm sefydlog yng Ngorffennaf a Medi 2020 ac mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi mewn dau ohonynt: Cronfa Gredyd Aml-ased a Chronfa Enillion Bond Absoliwt.

Cronfa Gredyd Aml- ased

Trosglwyddwyd ein hecwiti byd-eang o Fidelity i'r gronfa yma yng Ngorffennaf 2020. Mae gan y gronfa bum rheolwr buddsoddi sylfaenol (ICG, Man GLG, BlueBay, Barings a Voya) gyda Russell Investments fel y rheolwr buddsoddi. Mae'r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 31 Rhagfyr 2020:

	Tri Mis	Ers Cychwyn
Perfformiad	5.71	5.49
Meincnod	1.00	1.56
Gwarged enillion	4.71	3.93

Bu i'r Gronfa berfformio'n well na'r meincnod yn y cyfnod hwn. Bu i ddyhead cadarnhaol buddsoddwyr am risg hybu'r galw am gredyd yn y chwarter hwn. Gwobrwywyd safle credyd corfforaethol y Gronfa yn yr amgylchedd hwn. Yn yr UDA, bu i dan bwysau i elfennau diwydiannol ac ariannol enillion uchel ychwanegu gwerth perthynol. Yn Ewrop, bu i amlygiad hir i elfennau diwydiannol enillion uchel gyfrannu at hyn. Mewn manau eraill, bu i dan bwysau

â chredyd graddfa buddsoddi yn America Ladin leihau. O fewn cyfraddau, roedd tan bwysau i Sbaen yn negyddol mewn cyfnod lle y bu i enillion leihau.

Cronfa Enillion Bond Absoliwt

Trosglwyddwyd ein bondiau o Insight i'r gronfa yma ym Medi 2020. Mae gan y gronfa bedwar rheolwr buddsoddi sylfaenol (Wellington, Putnam, Aegon a Insight) a Russell Investments yw'r rheolwr buddsoddi. Mae'r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 31 Rhagfyr 2020:

	Tri Mis	Ers Cychwyn
Perfformiad	0.91	0.91
Meincnod	0.51	0.51
Gwarged enillion	0.40	0.40

Gorffennodd y Gronfa o flaen y meincnod yn y pedwerydd chwarter. Bu i gefnogaeth ariannol a llai o bryderon uniongyrchol am anweddolrwydd ddarparu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer y gronfa. Roedd amlygiad y gronfa i strategaethau blaendalu yn yrrwr allweddol o'i enillion cadarnhaol. Roedd yr amlygiad i gyfraddau marchnadoedd datblygol, yn bennaf Indonesia, Mecsico, Colombia a Rwsia, yn gadarnhaol. Roedd amlygiad hir i enillion uchel Ewrop ac UDA yn lleihau'r gronfa yn gyffredinol.

4. Datblygiadau

4.1 Marchnadoedd Datblygol

Y trosglwyddiad nesaf a fydd yn digwydd yw Marchnadoedd Datblygol. Cafodd strwythur y gronfa, rheolwyr posib ac amcan ffioedd ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor, ac mae'r prospectws wedi ei gymeradwyo gan yr FCA ym Mawrth 2021.

Bydd cronfa Gwynedd yn symud ein cyfran Marchnadoedd Datblygol o gwmni Fidelity i'r gronfa yma gyda'r dyddiad lansio yn Hydref 2021.

4.2 Marchnadoedd Preifat

Mae grŵp wedi ei sefydlu yn edrych ar yr opsiynau o gyfuno asedau i'r categori yma sydd yn cael ei gynorthwyo gan Hymans Robertson. Mae asesiad o ofynion pob cronfa yn cael ei wneud gyda thrafodaeth barhaus i benderfynu ar y strwythur a mecanwaith priodol i fuddsoddi ynddo.

Credyd Preifat ac Isadeiladwaith yw dau o'r prif feysydd ffocws gydag eiddo byd-eang hefyd yn cael ei ystyried.

4.3 Cyhoeddiadau

Mae gan PPC nifer o gyhoeddiadau sydd yn cael eu diweddarau'n barhaus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Polisi Buddsoddi Cyfrifol
- Polisi Pleidleisio
- Cynllun Cyfathrebu
- Matrics Llywodraethu

- Polisi Hyfforddi a Chynlluniau Hyfforddiant
- Polisi Risgiau yn Sgil yr Hinsawdd
- Polisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau
- Polisi Risg a Chofrestr Risg
- Cynllun Busnes

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan PPC: www.partneriaethpensiwncymru.org

4.4 Cynrychiolydd Aelodau ar y Cyd-bwyllgor Llywodraethu

Yn ei gyfarfod 24ain Mawrth 2021 bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried adroddiad ar Gynrychiolydd Aelodau'r Cynllun, a oedd yn manylu ar y broses benodi a argymhellir a'r fanyleb person a baratowyd gan y Gweithgor Swyddogion.

O ran y broses benodi, argymhellodd yr adroddiad y dylai pob Bwrdd Pensiwn lleol enwebu un cynrychiolydd aelodau'r cynllun a fyddai'n cyflwyno mynegiant o ddiddordeb yn nodi ei rinweddau penodol yn erbyn y fanyleb person. Byddai'r broses benodi yn cael ei chynnal gan is-grŵp Cyd-bwyllgor Llywodraethu a fyddai'n cyflwyno argymhelliad o ran penodi i'w gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Ar ôl i'r fanyleb person a'r broses benodi gael eu cymeradwyo'n ffurfiol, byddai angen diwygio'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau a byddai angen i'r wyth awdurdod cyfansoddol gymeradwyo'r addasiadau.

O ran y broses benodi cytunwyd dylai'r penodiad fod yn ddwy flynedd a dylai'r penodiad gynnwys dirprwy gynrychiolydd o Fwrdd Pensiwn gwahanol i Gynrychiolydd Aelod y Cynllun.

Disgwylir i'r broses gymryd rhwng chwech a deuddeg mis gan fod angen cymeradwyaeth Cyngor llawn gan bob awdurdod cyfansoddol ar gyfer newidiadau i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

5. Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r wybodaeth.